Cwrs Sylfaenol Ceredigion
Uned Tri Deg

Pwysleisio / Emphasising

Mae Ffred yn siarad *(niwtral)*	**<u>Ffred</u> sy'n siarad** *(pwyslais)*
Mae Ffred yn glanhau'r tŷ	<u>Ffred</u> sy'n glanhau'r tŷ
Mae Ffred yn gofalu am y plant	<u>Ffred</u> sy'n gofalu am y plant
Mae Ffred yn cwcan heno	<u>Ffred</u> sy'n cwcan heno
Mae Sandra yn gwisgo'r trowseri	<u>Sandra</u> sy'n gwisgo'r trowseri

Ie / Nage

Pwy sy'n _____ yn (eich) **tŷ chi?**
Y gŵr sy'n gweithio'n galed
Y gŵr sy'n talu'r morgais
Y wraig sy'n stilo
Y wraig sy'n hala'r arian

Faint o arian s(y) **'da chi?**
Dim ond punt s(y) 'da fi
Dim ond hanner can ceiniog s(y) 'da fi
Dim ond pum punt s(y) 'da fi
Dim ond dwy bunt s(y) 'da fi

Faint o blant s(y) **'da chi?**
Un mab s(y) 'da ni
Dau fab s(y) 'da ni
Un ferch s(y) 'da ni
Dwy ferch s(y) 'da ni

(D)w i'n nabod rhywun sy'n gweithio mewn banc
(D)w i'n nabod rhywun sy'n byw yng Nghaerfyrddin
(D)w i'n nabod rhywun sy'n (eich) nabod chi
(D)w i'n nabod rhywun sy'n dod ar y cwrs

<u>Deialog</u> (ar y ffôn)

Ffred:	**Sut mae! Ffred sy'n siarad.**
Sandra:	**Croeso'n ôl! Sut** (r)**o**(e)**dd y cwrs?**
Ffred:	**Ro**(e)**dd y cwrs yn ... ddiddorol.**
Sandra:	**Fwynheaist ti 'te?**
Ffred:	**Do, wir. Dysgais i lot o bethau.**
Sandra:	**Fel beth?**
Ffred:	**O ...** (dwyt) **ti ddim** (yn) **moyn gw**(y)**bod hynny.**
Sandra:	**Paid poeni. Mae ffrind 'da fi sy yn yr un dosbarth â ti. Gofynna i iddi hi.**
Ffred:	**Pwy yw hi 'te?**
Sandra:	**O ...** (dwyt) **ti ddim** (yn) **moyn gw**(y)**bod hynny!**

Geirfa

sy	- who / which is / are
pwysleisio (pwysleisi-)	- to emphasise
pwyslais	- emphasis
niwtral	- neutral
trowseri	- trousers
caled	- hard
morgais	- mortgage
hala (hal-)	- to spend
glanhau (glanheu-)	- to clean
stilo (stil-)	- to iron (clothes)
ar y chwith	- on the left
ar y dde	- on the right
yn y canol	- in the middle
pa un ..?	- which one ..?
diddorol	- interesting
cyffrous*	- exciting
croeso'n ôl	- welcome back
mwynhau (mwynheu-)	- to enjoy

* *The accent is on the last syllable here: cyff**ROUS**.*

Gwaith Cartre

Uned 30

Gorffennwch:

1. Ffred _____ siarad.
2. Mae Ffred _____ siarad.
3. _____ sy'n siarad?
4. Y gŵr sy'n _____ morgais.
5. Y wraig sy'n _____ llestri.
6. Dim _____ punt sy 'da fi.
7. Faint o blant _____ 'da chi?
8. _____ dau o blant 'da ni.

Cyfieithwch:

(Heavy print denotes emphasis.)

1. I know someone who lives in Machynlleth.
2. You don't want to know that.
3. I have a friend who's in the same class as you.
4. I learnt a lot of things.
5. I know someone who knows you.
6. We've got **two sons**.
7. I've only got **two pounds**.
8. **The wife** does the ironing.
9. **The husband** pays the mortgage.
10. It's **Fred** speaking.

Pwyntiau i'w cofio:

*1. 'sy' can mean 'who is' or 'who are'. **DO NOT** use 'pwy' in this context:*

'Dyma'r tiwtor sy'n dysgu' *(Here's the tutor **who is** teaching)*
'Pwy yw'r dynion sy'n siarad?' *(Who are the men **who are** speaking?)*